O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 888 (Cy. 146)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Man i'r Gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

Gwnaed	*2 Medi 2024*
Yn dod i rym	*9 Medi 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Man i'r Gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Medi 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 21:00 o'r gloch ar 9 Medi 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar—

(i) y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â mynedfa'r eiddo o'r enw Rugog, sydd oddeutu 550 o fetrau i'r gogledd o Gorris Uchaf, Gwynedd, hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B4405 ym Minffordd;

(ii) y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd ar ben Bwlch Tal-y-llyn (neu Gwm Rhwyddfor).

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Medi 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru